ADRODDIAD I'R: AWDURDOD TÂN

DYDDIAD: 5 CHWEFROR 2007

TESTUN: LNG South Hook, Aberdaugleddau; Ymweliad â De Corea

CRYNODEB:
Mae Rheolwr LNG South Hook (SHLNG) wedi gwahodd cynrychiolydd o MAWWFRS i ymweld â iard longau Samsung Heavy Industries yn Ne Corea, ar ddechrau mis Mawrth 2007. Bydd y cynrychiolydd hwn yn ymuno â grŵp o 4 o weithwyr SHLNG a 2 swyddog o Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau ar ymweliad a fydd yn para 2 ddiwrnod.

Bwriad yr ymweliad yw i gynrychiolwyr y DU gael gwerthuso manylion technegol y llongau cludo LNG Q Flex , a fydd yn cyrraedd Aberdaugleddau yn hydref 2007. Bydd yr ymweliad yn cynnwys taith o amgylch y llong, a'i alluoedd diffodd tân ac achub. Bydd yr wybodaeth yma'n bwysig wrth lunio'r canllawiau technegol a'r rhaglenni hyfforddi ar gyfer personél y Gwasanaeth Tân, a allai gael eu galw i ymdrin â digwyddiadau ar lanfa SHLNG yn Aberdaugleddau.

Enwebwyd y Rheolwr Gorsaf Ian Jenkins o B01 Hwlffordd i gynrychioli MAWWFRS. Mae gan y RhG Jenkins dipyn o brofiad ym maes llongau ac, ar hyn o bryd, mae'n arwain Gweithgor Gweithrediadau Sir Benfro ar faterion yn ymwneud â'r môr. Bydd y RhG Jenkins yn gyfrifol am baratoi'r canllawiau technegol ar longau cludo LNG Q Flex i MAWWFRS.

Bydd SHLNG yn talu holl gostau'r ymweliad, yn yr un modd â'r ymweliad cynt i Ddinas Ddiwydiannol Ras Laffen, Qatar yn 2006.

GOBLYGIADAU:

RISG WEITHREDOL **Mwy o wybodaeth a pharatoi ar gyfer risgiau**
RISG GYMUNEDOL
HYFFORDDIANT **Paratoi deunydd hyfforddi**
A.D
CYLLID **Lleiaf, costau'n cael eu talu gan y darparwr LNG**
T.G/CYF
CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH
IECHYD A DIOGELWCH
CYFREITHIOL

ARGYMHELLIAD:

I dderbyn cais y Rheolwyr Sirol i'r Rheolwr Gorsaf Jenkins i ymweld â De Corea.

PAPURAU CEFNDIR A DDEFNYDDIWYD WRTH BARATOI'R ADRODDIAD HWN:

Crynodeb, fel yr uchod, gan y Rheolwr Grŵp Nick Webley

Awdur yr Adroddiad a'i Swydd	ACO Philip Bailey
Rhif ffôn	0870 6060699